# Crynodeb o Fil
# Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

Tachwedd 2012

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: **www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/2848

# Crynodeb o Fil
## Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

Tachwedd 2012

Hannah Johnson ac Owain Roberts

Rhif dogfen: 12/050

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Cefndir ..... 2**

2.1. Y drefn drwyddedu bresennol ar gyfer cartrefi symudol ..... 2
2.2. Galwadau am newid ..... 2
2.3. Datblygiadau yn Lloegr a'r Alban ..... 4

**3. Y Bil ..... 6**

3.1. Nodau ac amcanion polisi ..... 6
3.2. Darpariaethau ..... 6

**4. Goblygiadau ariannol ..... 8**

4.1. Yr effaith ar weithredwyr y safleoedd ..... 8
4.2. Yr effaith ar awdurdodau lleol ..... 8
4.3. Yr effaith ar Lywodraeth Cymru a chostau trosiannol ..... 8

**5. Ymatebion ..... 9**

# Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad y'i cyflwynwyd:** 24 Hydref 2012

**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Peter Black AC

**Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1:** Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1:** 22 Chwefror 2013

Yn aml, caiff cartrefi symudol eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn fel cartrefi parhaol eu perchnogion ar safleoedd carafanau preswyl. Yn ôl ymchwil diweddar gan Llais Defnyddwyr Cymru mae tua 3,500 o gartrefi symudol ar 92 safle yng Nghymru, gyda thua 5,000 o breswylwyr.[1]

Fodd bynnag, mewn blynyddoedd diweddar mae'r problemau y mae rhai preswylwyr mewn safleoedd cartrefi symudol wedi'u profi wedi dod i sylw'r cyhoedd o ganlyniad i ymgyrchoedd a gwaith ymchwil mewn gwahanol rannau o'r DU. Yn benodol, mae nifer o berchnogion cartrefi preswyl wedi mynegi pryderon ynghylch ymddangosiad safleoedd, materion yn ymwneud â phrynu a gwerthu cartrefi symudol, pryderon ynghylch cytundebau â gweithredwyr safleoedd a ffioedd safleoedd.

Amcan *Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)*[2] ("y Bil") yw mynd i'r afael â'r pryderon hynny drwy ddiweddaru'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoleiddio meddiannaeth cartrefi symudol yng Nghymru a moderneiddio'r drefn drwyddedu bresennol. Y Bil yw'r Bil Aelod cyntaf i gael ei gyflwyno yn y pedwerydd Cynulliad.

Mae'r papur hwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gefndirol hanesyddol am y fframwaith cyfreithiol presennol sy'n rheoleiddio meddiannaeth cartrefi symudol yng Nghymru; mae'n rhoi trosolwg o brif amcanion a darpariaethau'r Bil; ac yn crynhoi rhai ymatebion cychwynnol.

---

[1] Llais Defnyddwyr Cymru, ***Bywyd parc: Byw mewn cartref symudol preswyl yng Nghymru***, Hydref 2012
[2] ***Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)***

## 2. Cefndir

### *2.1. Y drefn drwyddedu bresennol ar gyfer cartrefi symudol*

Mae hawliau ac amddiffyniadau perchnogion cartrefi symudol yn destun deddfwriaeth cartrefi symudol penodol yn hytrach na chyfraith dai gyffredinol. Mae hyn oherwydd er mai'r perchennog sydd berchen y cartref symudol, gweithredwr y safle sydd berchen y tir mae'r cartref symudol wedi'i leoli arno ac mae perchennog y cartref symudol yn talu rhent daear i weithredwr y safle. Yn ymarferol, golyga hyn bod gweithredwyr safleoedd yn gyfrifol am ddarparu cyflenwadau trydan, nwy a dŵr a'r holl waith cynnal a chadw a gwelliannau i'r parc.

Caiff meddiannaeth cartrefi symudol ei reoleiddio ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr drwy'r tri statud canlynol:

- Mae *Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960*[3] yn ei gwneud yn ofynnol bod perchnogion safleoedd yn cael trwydded safle gan awdurdod lleol cyn y gellir defnyddio unrhyw dir fel safle carafanau. Mae gan awdurdodau lleol bwerau i osod amodau mewn trwyddedau safle a'u gorfodi os cânt eu torri. Mae'r mathau o amodau y mae gan awdurdodau'r awdurdod i'w gorfodi o dan y Ddeddf yn ymwneud â nifer y carafanau a ganiateir ar safleoedd, y pellter rhyngddynt a'r cyfleusterau a ddarperir ar safleoedd.
- Mae *Deddf Safleoedd Carafanau 1968*[4] yn rhoi diogelwch sylfaenol i holl breswylwyr cartrefi symudol sy'n byw ar safleoedd gwarchodedig (h.y. ar dir y mae gan y perchennog ganiatâd cynllunio ar ei gyfer a'r hawl i gael trwydded safle). Mae'r Ddeddf yn atal perchnogion safleoedd rhag troi preswylwyr â chytundebau allan heb orchymyn llys.
- Mae *Deddf Cartrefi Symudol 1983*[5] yn rhoi sicrwydd deiliadaeth i breswylwyr ar safleoedd cartrefi symudol sy'n berchen eu cartref ac yn rhentu'r tir gan berchennog y safle. Fel Deddf 1968, mae Deddf 1983 yn berthnasol i berchnogion a phreswylwyr ar safleoedd gwarchodedig. Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth ar berchennog safle i gynnal a chadw'r safle ac mae'n rhoi'r hawl iddynt hawlio comisiwn ar werthiant cartrefi ar y safle.[6]

### *2.2. Galwadau am newid*

Ym mis **Mai 2009**, cynhaliodd Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cyd[7] ynghylch moderneiddio'r drefn drwyddedu ar gyfer safleoedd cartrefi symudol. O ganlyniad, cafodd papur yn

---

[3] ***Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960*** (Pennod 62)
[4] ***Deddf Safleoedd Carafanau 1968*** (Pennod 52)
[5] ***Deddf Cartrefi Symudol 1983*** (Pennod 34)
[6] Ar hyn o bryd, lefel y comisiwn yw 10 y cant o bris y gwerthiant
[7] Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol/Llywodraeth Cymru, ***Improving the Management of Residential Park Home Sites*** (Saesneg yn unig), Mai 2009

amlinellu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi gan Lywodraethau'r DU a Chymru ym mis **Mawrth 2010**.[8] Roedd y papur yn amlinellu bwriadau polisi'r ddwy lywodraeth, a oedd yn cynnwys cyflwyno prawf "person addas a phriodol" ar gyfer gweithredwyr safleoedd ac ystod o gynigion eraill i gryfhau'r drefn drwyddedu.

Er bod y papur yn amlinellu sut y gellir datblygu'r cynigion, ni chafodd yr un ohonynt eu rhoi ar waith. O ganlyniad, mae nifer o gynigion papur 2010 wedi'u cynnwys yn y Bil.

Ym mis **Rhagfyr 2011**, cyhoeddodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, *Cwrdd â'r Her Tai: Creu consensws ar gyfer gweithredu*,[9] sef dogfen ymgynghori i fod yn sail i'r gwaith sydd i ddod ar *Fil Tai* Llywodraeth Cymru. Cafodd cartrefi symudol eu hamlygu yn yr ymgynghoriad fel maes oedd angen ei ddiwygio. Yn benodol, cafodd diffygion y drefn drwyddedu bresennol a phryderon ynghylch rheolaeth wael ar rai safleoedd eu nodi. Nododd y ddogfen hefyd y dylai:

> [Llywodraeth Cymru] ystyried cyflwyno prawf "person addas a phriodol" ar gyfer pob un sy'n berchen ar safleoedd o'r fath er mwyn sicrhau bod y safleoedd hynny'n cael eu rheoli mewn modd effeithiol, ac er mwyn sicrhau tegwch i'r bobl sy'n byw yno.[10]

Cafodd Papur Gwyn dilynol, *Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell*[11], ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis **Mai 2012**. Roedd y papur yn nodi pryderon ynghylch fframwaith deddfwriaethol presennol cartrefi symudol, gan ddweud bod "Rhaid diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol".[12] Aeth y Papur Gwyn ymlaen i ddweud mai nod Llywodraeth Cymru yw:

> sicrhau y gall trigolion fyw yn y math o gartref y maent yn ei ddewis a chael diogelwch rhesymol yn erbyn arferion amheus.[13]

Yn ystod yr un mis, cafodd ymgynghoriad ar *Fil Cartrefi Symudol (Cymru)* ei gyhoeddi gan Peter Black AC.[14] Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 20 Gorffennaf 2012 a chyhoeddwyd copïau o'r holl ymatebion a gafwyd ar wefan y Cynulliad mewn tair rhan. [15]

Cafodd pryderon ynghylch anfodlonrwydd rhai perchnogion cartrefi symudol â'u safle hefyd eu codi mewn adroddiad ar fyw mewn cartrefi symudol preswyl ym mis **Hydref 2012** gan Llais Defnyddwyr Cymru.[16] Canfu'r adroddiad bod nifer

---

[8] Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol/Llywodraeth Cymru, ***Park homes site licensing reform: the way forward and next steps*** (Saesneg yn unig), Mawrth 2010
[9] Llywodraeth Cymru, ***Cwrdd â'r Her Tai: Creu consensws ar gyfer gweithredu***, Rhagfyr 2011
[10] Ibid
[11] Llywodraeth Cymru, ***Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell***, Mai 2012
[12] Ibid
[13] Ibid, paragraff 4.119
[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Ymgynghoriad ar Fil arfaethedig Cartrefi Symudol (Cymru): Peter Black AC***, Mai 2012
[15] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Bil Cartrefi Symudol (Cymru): Ymatebion i'r ymgynghoriad,* ***Rhan 1***, ***Rhan 2***, ***Rhan 3***, Gorffennaf 2012
[16] Llais Defnyddwyr Cymru, ***Bywyd parc: Byw mewn cartref symudol preswyl yng Nghymru***, Hydref 2012

sylweddol o'r perchnogion cartrefi symudol a gymrodd ran yn yr ymchwil wedi mynegi eu bod yn anfodlon â'u safle.[17]

## *2.3. Datblygiadau yn Lloegr a'r Alban*

Mae Tŷ'r Cyffredin a Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi ymgynghoriadau ynghylch trwyddedu a rheoleiddio cartrefi symudol dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn San Steffan, cynhaliodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Gymunedau a Llywodraeth Leol ymchwiliad diweddar i gartrefi symudol yn **Lloegr** ac yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2012 gwnaeth amryw o argymhellion ar gyfer diwygio,18 gan gynnwys dileu'r amod y caiff perchnogion safle gymeradwyo prynwyr cartrefi symudol. O ran a ddylai gweithredwyr safleoedd fodloni prawf "person addas a phriodol", daeth y Pwyllgor i'r casgliad hwn:

> A fit and proper person test could be a useful addition to local authorities' armoury to exclude the worst offenders from owning and managing park home sites.[19]

Roedd y Pwyllgor yn anghytuno'n benodol â Gweinidog tai y DU, Grant Shapps AS, a oedd yn dadlau na ddylid gwneud cymariaethau â'r drefn drwyddedu ar gyfer tai amlfeddiannaeth. Fodd bynnag, ymataliodd y Pwyllgor rhag argymell cyflwyno prawf "person addas a phriodol", gan ffafrio galwad am ddeddfwriaeth a fyddai'n caniatáu i Weinidogion gyflwyno cynllun o'r fath yn y dyfodol pe bai angen.

Ar 20 Mehefin 2012, cafodd Bil Aelod Preifat gan Peter Aldous AS ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin. Nod y ***Bil Cartrefi Symudol*** yw diwygio deddfwriaeth bresennol a chysoni trefn drwyddedu safleoedd cartrefi symudol yn Lloegr gyda threfniadau trwyddedu eraill awdurdodau lleol. Mae hefyd yn cynnwys y pŵer i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno gofyniad "person addas a phriodol" ar gyfer rheolwyr safleoedd drwy is-ddeddfwriaeth.

Nod y Bil yw ymestyn cwmpas y troseddau, dileu'r amod bod perchnogion safleoedd yn cael cymeradwyo prynwyr cartrefi symudol a gwneud darpariaethau newydd ar gyfer gwerthu a throsglwyddo. Mae hefyd yn cyflwyno amodau newydd ynghylch rheolau safleoedd ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwell tryloywder o ran adolygu ffioedd safleoedd. Bu'r Bil yn destun ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Hydref 2012. Mae'r Bil yn y cyfnod Pwyllgor ar hyn o bryd.

Cafodd ymgynghoriad ar drwyddedu safleoedd carafanau yn yr **Alban** ei gyhoeddi gan Lywodraeth yr Alban ym mis Mai 2012 a daeth i ben ym mis Awst 2012.[20] Mae'r cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr ymgynghoriad yn bennaf yn ceisio

---

[17] Ibid
[18] Y Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol, ***Park Homes*** *(Saesneg yn unig)*, 11 Mehefin 2012, HC 177-I, 2012-13, pp36-40
[19] Ibid, paragraff 58
[20] Llywodraeth yr Alban, ***Consultation on the licensing of caravan sites in Scotland*** (Saesneg yn unig), Mai 2012 [fel ar 23/10/2012]

gwella safonau o ran rheoli safleoedd carafanau preswyl parhaol, ond mae'r ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ar y math o safleoedd y dylai unrhyw drefn drwyddedu newydd fod yn berthnasol iddynt (er enghraifft, safleoedd sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cymysg neu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr).

Mae cynigion yr Alban yn cynnwys: cyflwyno meini prawf statudol o ran isafswm gofynion ar gyfer ceisiadau a phrawf "person addas a phriodol" a chyflwyno trwyddedau sy'n para 3 blynedd ar y mwyaf, gan roi fwy o bŵer i awdurdodau trwyddedu wrthod a diddymu trwyddedau a gorfodi a chynyddu dirwyon.

## 3. Y Bil

### *3.1. Nodau ac amcanion polisi*

Mae gan y Bil dri phrif nod cyffredinol:

- Cyflwyno trefn drwyddedu a gorfodi newydd ar gyfer safleoedd cartrefi symudol;
- Moderneiddio'r berthynas gytundebol rhwng perchnogion cartrefi symudol a gweithredwyr safleoedd; a
- Gwella rheolaeth safleoedd cartrefi symudol a safleoedd dibenion cymysg.

Nid yw’r Bil yn effeithio ar y gyfraith sy’n ymwneud â safleoedd carafanau gwyliau neu garafanau teithiol, er y bydd yn effeithio ar safleoedd dibenion cymysg (h.y. rhannau preswyl ar safleoedd sy'n cael eu defnyddio at ddibenion preswyl a gwyliau cymysg). Nid yw'r Bil yn effeithio ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol.

### *3.2. Darpariaethau*

Mae 33 Adran, sydd wedi'u rhannu'n bum Rhan, ac un Atodlen i'r Bil. **Mae rhan 1** y Bil yn rhoi trosolwg o strwythur, dehongliad a chymhwysiad y Bil. **Mae rhan 5** yn cynnwys darpariaethau amrywiol yn ymwneud â chychwyn, manylion am orchmynion a rheoliadau a wneir o dan y Bil a dehongliad rhai termau.

**Mae rhan 2 (Trwyddedu safleoedd rheoleiddiedig)** y Bil yn nodi manylion trefn drwyddedu newydd ar gyfer meddiannaeth cartrefi symudol. Dyma'r prif ddarpariaethau yn y rhan hon:

- **Cyflwyno trefn drwyddedu newydd ar gyfer meddiannaeth cartrefi symudol (Adrannau 3 i 16):** Mae'r darpariaethau hyn yn diffinio awdurdodau lleol yn gyfreithiol fel awdurdodau trwyddedu safleoedd, ac yn gwneud yn ofynnol iddynt ystyried gweithio ar y cyd i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Bil. Yn benodol, mae'r Bil yn nodi'r gofynion penodol ar gyfer ceisiadau; yn gosod prawf ar gyfer addasrwydd a phriodoldeb ymgeiswyr (prawf "person addas a phriodol"); yn gosod amodau trwydded penodol (gan gynnwys rhoi trwyddedau am gyfnod o bum mlynedd ar y mwyaf); yn gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu gadw cofrestr trwyddedau; ac yn rhoi hawl i ymgeiswyr apelio i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl.
- **Grymuso awdurdodau trwyddedu i orfodi trwyddedau (Adrannau 17 i 26)** Mae hyn yn cynnwys rhoi pŵer i awdurdodau trwyddedu gyflawni gwaith a phenodi rheolwyr interim lle bo angen; rhoi pŵer i fynd ar safle; galluogi awdurdodau i roi hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer methu â chydymffurfio ag amodau'r drwydded; a galluogi'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl i

wneud "gorchmynion ad-dalu" yn gorfodi gweithredwyr i ad-dalu rhai costau i berchnogion cartrefi os oes angen trwydded ar safle ond nad oes ganddo un.

**Mae rhan 3 (gwelliannau i Ddeddf 1983)** y Bil yn gweithredu Atodlen 1 ac yn gwneud gwelliannau i *Ddeddf Cartrefi Symudol 1983*[21] o ran y berthynas gytundebol rhwng perchnogion cartrefi a gweithredwyr safleoedd, yn enwedig o ran sut caiff cartrefi eu prynu a'u gwerthu. Nod y darpariaethau yw cryfhau hawliau olyniaeth cyd-berchnogion, cyplau, partneriaid, aelodau o'r teulu a ffrindiau ac mae'n sefydlu darpariaethau newydd sy'n galluogi perchnogion i werthu a throsglwyddo[22] cartrefi symudol, gan gynnwys dileu'r amod bod gweithredwyr safleoedd yn cael cymeradwyo gwerthiant cartref.

**Mae rhan 4 (Rheolaeth safleoedd rheoleiddiedig)** y Bil yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi codau ymarfer o ran rheolaeth safleoedd ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i sicrhau bod trefniadau rheolaeth boddhaol gan safleoedd.

[21] ***Deddf Cartrefi Symudol 1983*** (Pennod 34)
[22] "Trosglwyddo" yw pan fydd perchennog cartref symudol yn gwerthu eu cartref yn uniongyrchol i berson arall, yn hytrach na bod y prynwr yn prynu'r cartref gan weithredwr y safle.

## 4. Goblygiadau ariannol

Mae'r Memorandwm Esboniadol (“ME”) yn nodi y gallai'r Bil beri nifer o gostau ychwanegol. Mae amlinelliad o'r rhain isod:

### *4.1. Yr effaith ar weithredwyr y safleoedd*

Mae darpariaethau'r Bil yn debygol o gael effaith ariannol ar weithredwyr y safleoedd, yn bennaf drwy ffioedd y  trwyddedau, gwneud profion "person addas a phriodol”, newidiadau i ffioedd safleoedd a chostau gweinyddu amrywiol eraill. Mae'r ME yn amcangyfrif y byddai hyn yn gyfwerth â thua £415,000 dros y pum mlynedd gyntaf yn dilyn gweithredu'r Bil.

### *4.2. Yr effaith ar awdurdodau lleol*

O dan y Bil, byddai gan awdurdodau lleol ragor o gyfrifoldebau o ran gweinyddu'r drefn drwyddedu ac incwm ffioedd y safleoedd. Mae'r ME yn amcangyfrif y byddai hyn yn gyfwerth â thua £67,500 dros y pum mlynedd gyntaf yn dilyn deddfu'r Bil.

### *4.3. Yr effaith ar Lywodraeth Cymru a chostau trosiannol*

Mae'r ME yn nodi y bydd y costau i Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar lefel y rheoliadau yn y Bil a faint o ddeddfwriaeth sy'n bod eisoes sydd angen ei haddasu neu ei disodli. Amcangyfrif Llywodraeth Cymru yw y bydd y costau trosiannol yn £270,000, o leiaf. Mae hyn yn cynnwys gwaith paratoi, cyhoeddi a chyhoeddusrwydd, ynghyd â hyfforddi staff a fydd yn gorfodi'r rheoliadau hyn ac yn cydymffurfio â chanllawiau.

## 5. Ymatebion

Mewn ymateb i ddatganiad deddfwriaethol Peter Black ar y Bil ar 7 Tachwedd 2012, croesawodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, ei gyhoeddiad ond pwysleisiodd yr angen i ystyried agweddau penodol ymhellach yn ystod y broses ddeddfwriaethol. Roedd pryderon cyntaf y Gweinidog yn ymwneud â nifer y pwerau is-ddeddfwriaeth yn y Bil:

> The explanatory memorandum that accompanies the Bill lists 16 regulation, Order and guidance powers, including commencement, that the Welsh Government will need to make in order to fully describe and implement the new site licensing scheme—a hefty total. The question is whether scrutiny of the Bill will require more than merely empowering the Welsh Government to make these items of secondary legislation, and we would ask whether Peter has fully considered that.[23]

Ychwanegodd y Gweinidog bod angen gwneud rhagor o waith ar y trefniadau trosiannol yn y Bil:

> It is quite clear that there is still some work to be done around finalising the content of the Bill, and this is particularly the case where the transitional arrangements for movement from the existing site licensing regime to the new arrangements are concerned. It is not really apparent whether Mr Black intends the new licensing regime to involve revoking the existing site licensing system, or whether it should just apply to new applications for site licences. Clarification on that point would be very helpful.[24]

Roedd y Gweinidog hefyd eisiau eglurder am y costau ynghlwm wrth y Memorandwm Esboniadol sy'n cydfynd â'r Bil ac ar effaith posibl y trefniadau trwyddedu newydd arfaethedig ar safleoedd cymysg:

> It might also be useful for colleagues to have more of an idea about the basis of how the figures in the explanatory memorandum associated with implementing the new site licensing regime have been arrived at. The Welsh Government would also value comments on the potential effect that the new site licensing arrangements are likely to have on mixed sites, where the existing licence covers holiday accommodation and a specified number of units that are licensed for permanent accommodation.[25]

Ymysg rhanddeiliaid allanol eraill, croesawyd y Bil gan un o uwch gyfarwyddwyr Llais Defnyddwyr Cymru, Rhys Evans, a nododd ar 16 Hydref:

> Rydym o'r farn y gallai'r Bil wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau miloedd o bobl, a'n gobaith yw y bydd ein gwaith ymchwil, sef yr astudiaeth fanwl gyntaf erioed i gael ei chynnal yng Nghymru, yn cyfrannu at y diwygiadau hyn.
>
> Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod bygythiad atal gwerthiant yn effeithio ar drigolion cartrefi mewn parciau ledled Cymru, ac mae'n rhaid cael gwared ar hyn trwy gael gwared ar feto gweithredwr y safle ar werthiannau cartrefi mewn parciau.  Rydym hefyd yn gryf o blaid

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn***, 7 Tachwedd 2012
[24] Ibid
[25] Ibid

> cyflwyno prawf unigolyn addas a phriodol, a hoffem weld cynigion i roi'r gallu i awdurdodau lleol wneud eu gwaith.
>
> Hoffem i unrhyw Fil newydd oresgyn y rhwystrau presennol sy'n atal sefydliadau rhag cymryd camau gorfodi effeithiol. Mae angen i unrhyw drefn orfodi newydd fod yn ddeinamig ac yn gadarn a meddu ar y pwerau cyfreithiol i gosbi gweithredwyr safle diegwyddor, i amddiffyn trigolion ac i gynnig mwy o gymhelliad i godi safonau'r diwydiant.
>
> Rydym yn gwybod bod llawer o drigolion sydd wedi cael problemau yn y gorffennol nad oeddent yn gwybod ble i droi am help. Felly rydym yn galw am ddarparu canllawiau mwy eglur a rhagor o wybodaeth i drigolion, gweithredwyr safleoedd ac awdurdodau lleol.[26]

Mae'r gwasanaeth annibynnol cynghori cartrefi mewn parciau, sef y corff sy'n cynghori trigolion cartrefi mewn parciau ac sy'n cynrychioli eu buddiannau ledled y DU hefyd yn croesawu cyflwyno'r Bil fel newyddion da i drigolion yng Nghymru.[27]

[26] Llais Defnyddwyr Cymru, ***Datganiad i'r Wasg: Amddiffyn perchnogion cartrefi symudol rhag gweithredwyr safle diegwyddor***, 16 Hydref 2012

[27] The Independent Park Homes Advisory Service, ***Useful Information: Mobile Home Sites (Wales) Bill Introduced***, 24 Hydref 2012